

# MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

## BIL DADREOLEIDDIO

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Yn ôl Rheol Sefydlog 29, rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a rhaid cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os bydd Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu sy'n newid y cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Dadreoleiddio (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 23 Ionawr 2014. Gellir gweld y Bil yn:

<http://services.parliament.uk/bills/2013-14/deregulation.html>

### Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

3. Noddir y Bil gan Swyddfa'r Cabinet. Amcan polisi Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw dileu neu leihau'r beichiau rheoliadol diangen sy'n rhwystro busnesau, unigolion, gwasanaethau cyhoeddus neu'r trethdalwr neu'n costio arian iddynt.
4. Mae'r Bil yn cynnwys mesurau sy'n ymwneud â meysydd busnes cyffredinol a phenodol, cwmnïau ac ansolfedd, y defnydd o dir, tai, trafnidiaeth, cyfathrebu, yr amgylchedd, addysg a hyfforddiant, adloniant, awdurdodau cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder. Mae'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer dyletswydd ar y rhai sy'n cyflawni swyddogaethau rheoliadol a nodwyd i ystyried pa mor ddymunol yw hybu twf economaidd. At hynny, bydd y Bil yn diddymu deddfwriaeth nad yw o ddefnydd ymarferol mwyach.

### Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad yn eu cylch

5. Er hwylustod, rhestrir y darpariaethau y ceisir caniatâd yn eu cylch isod yn y drefn y maent yn ymddangos yn y Bil pan y'i cyflwynwyd, wedi'u dilyn gan ddisgrifiad manwl o bob un o'r darpariaethau yn ei thro. Mae cyfeiriadau at rifau cymalau ac atodlenni hefyd fel y maent yn ymddangos yn y Bil pan y'i cyflwynwyd.

### Rhestr o'r darpariaethau yn y Bil y ceisir caniatâd y Cynulliad yn eu cylch:

Cymal 3	Atodlen 1	Rhan 3 (Prentisiaethau: Cymru)
Cymal 24	Atodlen 8	Rhan 2 (twmpathau ffordd)
Cymal 30	Atodlen 11	Rhan 1 (anifeiliaid dinistriol a

		fewnforir)
Cymal 30	Atodlen 11	Rhan 4 (ansawdd aer)
Cymal 30	Atodlen 11	Rhan 5 (parthau lleihau sŵn)
Cymal 35	Atodlen 12	Rhan 1 (diddymu Swydd y Prif Weithredwr Ariannu Sgiliau)
Cymal 36	Atodlen 13	Rhan 1 (mesurau sy'n gymwys i Gymru a Lloegr mewn perthynas ag Addysg Bellach ac Addysg Uwch: lleihau beichiau)
Cymal 57	Atodlen 16	Rhan 2, paragraff 18 (dileu'r gofynion ymgynghori)
Cymal 60	Atodlen 17	Rhan 5, paragraffau 17-21(deddfwriaeth nad yw o ddefnydd ymarferol mwyach – yr amgylchedd)
Cymal 60	Atodlen 17	Rhan 6, paragraffau 22-27(deddfwriaeth nad yw o ddefnydd ymarferol mwyach– anifeiliaid a bwyd)
Cymal 60	Atodlen 17	Rhan 8, paragraff 29 (deddfwriaeth nad yw o ddefnydd ymarferol mwyach– cyfraith droseddol)

### **Cymal 3 – Prentisiaethau: Symleiddio**

#### ***Atodlen 1 – Rhan 3- Prentisiaethau: Cymru***

6. Mae Cymal 3(4) yn cyflwyno Rhan 3 (paragraffau 21 i 24) o Atodlen 1, sy'n cynnwys mân ddiwygiadau i'r darpariaethau ynglŷn â phrentisiaethau yng Nghymru yn Rhan 1 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (Deddf 2009).
7. Mae paragraffau 21 i 24 o Atodlen 1 yn diwygio, yn rhannol, adrannau 18 i 20 yn gynwysedig o Ddeddf 2009.
8. Mae adran 18 o Ddeddf 2009 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddynodi unigolyn i gyhoeddi fframweithiau prentisiaeth sy'n ymwneud â sector prentisiaeth penodol. Mae Rhan 3 o Atodlen 1 yn diwygio adran 18 fel y gall Gweinidogion Cymru eu hunain weithredu fel awdurdod cyhoeddi yng Nghymru yn ogystal â meddu ar y pwerau i ddynodi eraill. Mae Rhan 3 o Atodlen 1 hefyd yn gwneud rhai diwygiadau canlyniadol sy'n deillio o'r diwygiadau i adran 18.
9. Mae Cymal 68(4) a (6) yn darparu ar gyfer pwerau Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion sy'n ymwneud â'r darpariaethau ynglŷn â

phrentisiaethau yng Nghymru a nodir yn Atodlen 1, Rhan 3. Mae Cymal 68(4) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gychwyn y darpariaethau yn Atodlen 1, Rhan 3 drwy orchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

10. Mae Cymal 68(6) yn rhoi pŵer cysylltiedig i Weinidogion Cymru drwy orchymyn a wneir drwy offeryn statudol i wneud y cyfryw ddarpariaeth drosiannol, darfodol neu arbed a ystyriant yn briodol mewn cysylltiad ag Atodlen 1, Rhan 3 yn dod i rym.
11. Gan fod y pwerau hyn i wneud gorchmynion yn ymwneud â chychwyn darpariaethau, ni fydd yr un o weithdrefnau'r Cynlluniad yn gwmwys.
12. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud ag Addysg, hyfforddiant galwedigaethol, cymdeithasol a chorfforol a'r gwasanaeth gyrfaoedd; a hyrwyddo datblygu a chymhwyso gwybodaeth, o dan baragraff 5 o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## **Cymal 24 – Lleihau beichiau sy'n ymwneud â defnyddio ffyrdd a rheilffyrdd**

### ***Atodlen 8, Rhan 2 sy'n ymwneud ag adeiladu twmpathau ffordd***

13. Mae Cymal 24 o'r Bil yn cyfeirio at Atodlen 8. Mae Rhan 2 o Atodlen 8 yn diwygio adran 90C o Ddeddf Priffyrdd 1980. Ar hyn o bryd mae adran 90C yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru neu awdurdod priffyrdd lleol ymgynghori â phrif swyddog yr heddlu ar gyfer yr ardal ac unigolion neu gyfrff eraill a ragnodir gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru cyn adeiladu twmpathau ffordd. Mae'n rhaid cyhoeddi hysbysiad o unrhyw gynigion mewn un neu ragor o bapurau newydd lleol a'i roi ar y safle a gellir cynnal ymchwiliad lleol er mwyn ystyried unrhyw wrthwynebiadau a gafwyd. Mae'n rhaid i'r weithdrefn i'w dilyn mewn ymchwiliad lleol gydymffurfio â darpariaethau yn adran 250(2) i (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ond gyda'r cyfryw ddiwygiadau ag a ragnodir gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.
14. Byddai Rhan 2 o Atodlen 8 yn diwygio'r adran uchod fel y câi'r holl ofynion ymgynghori a chyhoeddi, yn ogystal â gweithdrefnau ymchwiliadau lleol, eu nodi mewn rheoliadau i'w gwneud gan Weinidogion Cymru.
15. Mae'r darpariaethau yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. Mae'r darpariaethau yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau sy'n ymwneud â chyhoeddi manylion cynigion i adeiladu twmpathau ffordd a gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau i'r cyfryw gynigion a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â'r cyfryw wrthwynebiadau. Câi rheoliadau eu llunio o dan y weithdrefn negyddol.

16. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â Phrifyrdd a Thrafnidiaeth o dan baragraff 4 o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### **Cymal 30 – Mesurau eraill sy'n ymwneud ag anifeiliaid, bwyd a'r amgylchedd**

#### ***Atodlen 11 - Rhan 1 – Anifeiliaid Dinistriol a Fewnforir***

17. Mae Cymal 30 o'r Bil yn cyflwyno Atodlen 11 (“Mesurau eraill sy'n ymwneud ag anifeiliaid, bwyd a'r amgylchedd”), mae Rhan 1 o Atodlen 11 (“Anifeiliaid dinistriol a fewnforir”) yn diwygio Deddf Anifeiliaid Dinistriol a Fewnforir 1932 a Gorchymyn Gwiwerod Llwyd (Gwahardd Mewnforio a Chadw) 1937 (paragraffau 1 a 2 o Ran 1 o Atodlen 11 i'r Bil).
18. Mae'r diwygiadau arfaethedig yn dileu'r rhwymedigaeth i feddiannydd tir roi gwybod am bresenoldeb gwiwerod llwyd o dan Orchymyn Gwiwerod Llwyd (Gwahardd Mewnforio a Chadw) 1937 (OS 1937/437) ac yn diwygio'r ddeddfwriaeth alluogi, Deddf Anifeiliaid Dinistriol a Fewnforir 1932, fel y bydd yn haws i ddiwygio Gorchymyn 1937 yn y dyfodol.
19. Mae Deddf Anifeiliaid Dinistriol a Fewnforir 1932 yn ei gwneud yn bosibl i reoleiddio'r modd y caiff rhywogaethau penodol o famaliaid anfrodorol, dinistriol eu mewnforio a'u cadw ym Mhrydain Fawr. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i feddianwyr tir roi gwybod am unrhyw rywogaethau penodol a welwyd (fel y gellir dal yr anifeiliaid dan sylw a'u symud ac, felly, gael gwared â'r rhywogaethau o'r gwyllt).
20. I ddechrau dim ond i lygod mwsgrodd Deddf 1932 yn berthnasol, ond mae adran 10 o Ddeddf 1932 yn ei gwneud yn bosibl i Orchymyn gael ei wneud sy'n ymestyn darpariaethau'r Ddeddf honno i rywogaethau mamalaidd anfrodorol eraill. Gwnaed Gorchymyn 1937 yn unol â'r adran honno a chymhwysodd darpariaethau Deddf 1932 at wiwerod llwyd. Effaith Gorchymyn 1937 yw y dylid rhoi gwybod am wiwerod llwyd a welwyd gan feddianwyr tir.
21. Er gwaethaf y mesur hwn a chynllun bownti a gyflwynwyd yn y 1950au (fe'i cyflwynwyd yn 1953 ond rhoddwyd y gorau iddo yn 1958), mae ymdrechion i gael gwared â'r boblogaeth gwiwerod llwyd yn y DU wedi methu ac maent wedi ymsefydlu mor dda ers hynny fel nad yw'n ymarferol cael gwared â hwy mwyach. Felly, nid oes gan rwymedigaeth gyffredinol i roi gwybodaeth am bresenoldeb gwiwerod llwyd unrhyw werth o safbwynt eu rheoli ar hyn o bryd.
22. Yn anffodus, nid yw'n bosibl dirymu na diwygio Gorchymyn 1937 yn y ffordd arferol (h.y. drwy offeryn statudol dilynol) am fod y pŵer galluogi yn Neddf 1932 (sef y pŵer y câi Gorchymyn 1937 ei ddiwygio o dano) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru (at ein dibenion ni), er mwyn

arfer y pŵer i wneud Gorchmynion, fodloni eu hunain ei bod yn ddymunol gwahardd cadw gwiwerod llwyd neu reoli'r modd y cânt eu cadw a dinistrio unrhyw rai sy'n rhydd. Gan fod gwiwerod llwyd bellach yn gyffredin yn y DU ni all Gweinidogion Cymru na Llywodraeth y DU fodloni eu hunain ei bod yn ddymunol gwneud hynny ac, o ganlyniad, nid yw'r pŵer yn Neddf 1932 ar gael mwyach mewn perthynas â'r rhywogaeth honno.

23. Bydd y diwygiadau a gynigir gan baragraffau 1 a 2 o Ran 1 o Atodlen 11 i'r Bil Dadreoleiddio yn dileu'r gofyniad i roi gwybod am bresenoldeb gwiwerod llwyd yng Ngorchymyn 1937 ac yn ei gwneud yn haws i ddiwygio'r Gorchymyn yn y dyfodol drwy ddiwygio Deddf 1932.
24. Mae angen gwahardd cadw a mewnfurio gwiwerod llwyd o hyd ac, felly, bydd gweddill Gorchymyn 1937 yn parhau mewn grym. Mae rheolwyr tir yn buddsoddi cryn dipyn o amser ac arian yn y gwaith o reoli gwiwerod llwyd er mwyn diogelu gwiwerod coch a bioamrywiaeth coetir ehangach. Byddai dirymu'r Gorchymyn Gwiwerod Llwyd yn ei gyfanrwydd yn dileu offeryn effeithiol ar gyfer cyfyngu ar ymlediad y rhywogaeth i ardaloedd lle nas ceir ar hyn o bryd neu'n ôl i ardaloedd lle y cafwyd gwared â hwy.
25. Nid yw'r diwygiadau i Ddeddf 1932 a Gorchymyn 1937, ohonynt eu hunain, yn rhoi unrhyw bwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae'r diwygiadau i adran 10 o Ddeddf 1932 yn newid pŵer i wneud Gorchymyn sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru. Mae Gorchymyn o dan adran 10 o Ddeddf 1932 yn destun gweithdrefn gadarnhaol (h.y. ni chaiff Gorchymyn o dan yr adran honno unrhyw effaith nes i'r Cynulliad basio cynnig yn ei gymeradwyo (mewn perthynas â Chymru), gweler adran 10(1) o Ddeddf 1932).
26. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud ag Iechyd a Lles Anifeiliaid o dan baragraff 1 o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

#### ***Atodlen 11 - Rhan 4 – Ansawdd Aer***

27. Mae Rhan 4 o Atodlen 11 yn ymwneud ag 'Ansawdd Aer'. Mae'r darpariaethau yn ymwneud â diddymu 'Asesiadau Pellach', y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu cynnal yn sgil datgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) fel sy'n ofynnol yn Adran 84, Rhan IV, o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.
28. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau statudol o ran rheoli ansawdd aer lleol o dan Ran IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud y canlynol:

- a) adolygu ansawdd yr aer ar y pryd ac ansawdd tebygol yr aer yn y dyfodol yn eu hardal awdurdod lleol yn erbyn amcanion a nodir yn Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000;
  - b) cynnal asesiad, ynghyd ag adolygiad, er mwyn nodi a yw safonau ac amcanion ansawdd aer yn cael eu cyflawni;
  - c) lle y rhagamcanir na chaiff safonau ac amcanion ansawdd aer eu cyflawni, datgan bod ardal ansawdd aer lleol yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer.
29. Mae adran 84 (1) o Ddeddf yr Amgylchedd yn nodi, ar ôl datgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer, fod yn rhaid i'r awdurdod lleol gychwyn asesiad "atodol". Mae adran 84 (2)(a) yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiad gael ei gyhoeddi ar yr asesiad, a elwir yn 'Asesiad Pellach'. Datgelodd ymgynghoriad ffurfiol ag awdurdodau lleol nad oedd yr Asesiad Pellach yn ddefnyddiol wrth baratoi cynlluniau i wella ansawdd aer am y byddai'r wybodaeth, yn y rhan fwyaf o achosion, yn cael ei chasglu fel rhan o'r asesiad cychwynnol sy'n ei ragflaenu.
30. Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol gan Lywodraeth Cymru yn ystod haf 2013. Daeth i'r casgliad bod rheswm dros ddiddymu 'Asesiadau Pellach'. Trosglwyddwyd y swyddogaethau o dan Adran 84 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, o'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, OS 1999/672, erth. 2, Atodlen 1, ac maent bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
31. Nid yw'r ddarpariaeth hon yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.
32. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â diogelu'r Amgylchedd, gan gynnwys llygredd, niwsans a sylweddau peryglus a phwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol o dan baragraff 6 a 12 o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### ***Atodlen 11 - Rhan 5 - Parthau Lleihau Sŵn***

33. Mae'r darpariaethau hyn yn diddymu adrannau 57, 63 i 67 a 69, ac yn diwygio adran 73, yn Rhan 3 o Ddeddf Rheoli Llygredd 1974, sy'n ymwneud â dyletswydd awdurdodau lleol i arolygu a'r pŵer i sefydlu Parthau Lleihau Sŵn yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Maent hefyd yn diddymu Atodlen 1 i'r Ddeddf Rheoli Llygredd ac yn gwneud newidiadau canlyniadol penodol i ddeddfwriaeth arall.
34. Cyflwynwyd Parthau Lleihau Sŵn er mwyn atal lefelau sŵn amgylcheddol rhag gwaethygu a gostwng lefelau sŵn lle bynnag y bo'n ymarferol. Bydd diddymu a diwygio darpariaethau perthnasol y Ddeddf Rheoli

Llygredd yn diddymu Parthau Lleihau Sŵn sy'n bodoli eisoes ac yn atal rhai newydd rhag cael eu sefydlu.

35. Mae gwaith dadansoddi wedi dangos mai ychydig o ddefnydd a wneir o'r ddeddfwriaeth. Mewn rhai achosion, mae Parthau Lleihau Sŵn wedi'u sefydlu ond nid ydynt yn cael eu gorfodi ac mae eu diddymu drwy'r darpariaethau hyn yn ffordd (sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon) o ddileu'r baich ar awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig â dileu eu Parthau Lleihau Sŵn yn unigol.
36. Yng Nghymru, dim ond Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Dinas Abertawe sydd wedi sefydlu Parthau Lleihau Sŵn. Nid yw'r rhain yn cael eu gorfodi am fod mesurau gorfodi sŵn mwy effeithiol eraill yn cael eu defnyddio.
37. Roedd ymatebion i ymgynghoriad ar y cyd rhwng Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) a Llywodraeth Cymru a gynhaliwyd gan DEFRA ym mis Ionawr 2013 yn unfrydol o blaid diddymu'r ddeddfwriaeth ac ni nodwyd unrhyw ganlyniadau negyddol annisgwyl.
38. Mae'r darpariaethau hyn ond yn diddymu deddfwriaeth bresennol, nid ydynt yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.
39. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â diogelu'r amgylchedd, gan gynnwys llygredd a niwsans (paragraff 6), a phwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol o dan baragraff 12, o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## **Cymal 35 – Diddymu swydd y Prif Weithredwr Ariannu Sgiliau**

### ***Atodlen 12 — Rhan 1 — Prif ddiwygiadau***

40. Mae Cymal 35 yn diddymu swydd y Prif Weithredwr Ariannu Sgiliau ac yn cyflwyno Atodlen 12.
41. Mae paragraff 16 o Atodlen 12 yn diwygio adran 107 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009. Mae'r adran hon yn caniatáu i'r Prif Weithredwr Ariannu Sgiliau ddarparu gwasanaethau (gan gynnwys darparu llety neu reoli llety, neu gaffael nwyddau a gwasanaethau neu helpu i'w caffael) i dderbynnydd a ganiateir. Nodir Gweinidogion Cymru yn adran 107(4)(b) fel dderbynnydd a ganiateir. At hynny, mae gan Weinidogion Cymru bŵer i nodi drwy Orchymyn dderbynnyddion eraill a ganiateir pan fo'r cyfryw berson yn darparu addysg neu hyfforddiant yng Nghymru (107(4)(g)).
42. Effaith y diwygiadau arfaethedig yw dileu cyfeiriadau at y Prif Weithredwr Ariannu Sgiliau a rhoi cyfeiriadau at yr Ysgrifennydd Gwladol yn eu lle, sy'n golygu mai'r Ysgrifennydd Gwladol yn hytrach na'r Prif Weithredwr

Ariannu Sgiliau sy'n gorfod cael caniatâd Gweinidogion Cymru cyn darparu gwasanaethau yng Nghymru.

43. Mae paragraff 17 yn hepgor adran 108 sy'n galluogi'r Prif Weithredwr i gymryd rhan mewn trefniadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru neu Weinidogion yr Alban o dan adran 2 o Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973.
44. Nid yw'r ddarpariaeth hon yn cynnwys pwerau newydd i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.
45. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r ddarpariaeth hon yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y mae'n ymwneud ag Addysg, hyfforddiant galwedigaethol, cymdeithasol a chorfforol a'r gwasanaeth gyrfaoedd; a hyrwyddo datblygu a chymhwyso gwybodaeth, o dan baragraff 5 o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### **Cymal 36 - y sector addysg bellach a'r sector addysg uwch: lleihau beichiau**

#### ***Atodlen 13 — Addysg bellach ac addysg uwch: lleihau beichiau***

46. Mae Cymal 36 yn cyflwyno Atodlen 13 sy'n darparu ar gyfer lleihau beichiau yn y sector addysg bellach a'r sector addysg uwch.
47. Mae paragraff 1 o Atodlen 13 yn diddymu adran 3 o Ddeddf Addysg Bellach 1985. Mae adran 3 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu'r gyfradd llog isaf ar gyfer benthyciadau a wneir gan Awdurdod Lleol i Gorfforaethau Addysg Bellach ("AB") neu Addysg Uwch ("AU") neu sefydliadau AB neu AU a gynhelir gan awdurdodau lleol. Hefyd, mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan yr adran hon i bennu'r gyfradd llog isaf ar gyfer benthyciadau a wneir gan Awdurdodau Lleol ond nid yw'r pwerau hyn wedi'u defnyddio'n ddiweddar ac nid ystyrir bod eu hangen. Felly, rydym yn fodlon y dylid diddymu adran 3 o Ddeddf 1985.
48. Mae paragraff 2 o Atodlen 13 yn diwygio Deddf Addysg (Rhif 2) 1986, drwy ddiddymu adran 61 ac adran 62 o Ddeddf 1986. Mae adran 61 yn rhoi pŵer i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, neu Weinidogion Cymru yng Nghymru, wneud rheoliadau er mwyn cyfyngu ar gyfranogiad llywodraethwyr sy'n fyfyrwyr o fewn corff llywodraethu sefydliadau AB neu AU a gynhelir gan Awdurdodau Lleol. Mae adran 62 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu Weinidogion Cymru, wneud rheoliadau er mwyn trefnu bod dogfennau a gwybodaeth ragnodedig sy'n ymwneud â chyfarfodydd a thrafodion corff llywodraethu sefydliadau AB neu AU a gynhelir gan Awdurdodau Lleol ar gael i bobl. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw sefydliadau AB nac AU a gynhelir gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Felly, nid ystyrir bod angen y pwerau yn adrannau 61 a 62 o Ddeddf 1986 yng Nghymru. Felly, rydym yn fodlon y dylid eu diddymu.



49. Mae paragraff 3, is-baragraffau (2) - (4) o Atodlen 13 yn diwygio Deddf Diwygio Addysg 1988. Mae is-baragraff 2 yn diddymu adran 158 o Ddeddf 1988, sy'n rhoi pŵer i'w gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu sefydliadau AB neu AU a gynhelir gan Awdurdodau Lleol gyflwyno adroddiadau. Mae is-baragraff 3 yn diddymu adran 159 o Ddeddf 1988, sy'n rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu Weinidogion Cymru, wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol roi gwybodaeth am sefydliadau AB neu AU a gynhelir gan Awdurdodau Lleol. Mae is-baragraff 4 yn hepgor adran 219 o Ddeddf 1988, sy'n rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu Weinidogion Cymru, atal swyddogaethau corff llywodraethu sefydliadau AB neu AU a gynhelir gan Awdurdodau Lleol rhag cael eu cyflawni mewn modd afresymol. Nid yw'r pwerau yn adrannau 158, 159 a 219 o Ddeddf 1988 erioed wedi'u harfer gan Weinidogion Cymru. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn fodlon y dylid diddymu'r darpariaethau hyn.
50. Mae paragraff 4 o Atodlen 13 yn diwygio Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 mewn perthynas â sefydliadau addysg bellach a gynhelir gan awdurdodau lleol; nid oes unrhyw sefydliadau o'r fath yng Nghymru.
51. Mae paragraff 4(2) yn diddymu adrannau 23 i 26 o'r Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch, sy'n ymwneud â phwerau a oedd yn ymwneud â'r broses o drosglwyddo darpariaeth AB o sefydliadau a gynhelir gan awdurdodau lleol i gorfforaethau AB a sefydlwyd gan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.
52. Mae paragraff 4(3) yn diddymu adran 32 a 33 sy'n adrannau dyddiedig o ran amser ac sy'n ymwneud â throsglwyddo eiddo a staff o Awdurdodau Lleol i Sefydliadau Dynodedig.
53. Mae paragraff 4(4) yn hepgor adrannau 34 sy'n ymwneud â phwerau sy'n gysylltiedig â'r broses o drosglwyddo darpariaeth AB o sefydliadau a gynhelir gan awdurdodau lleol i gorfforaethau AB a sefydlwyd gan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw nod polisi i gyflwyno corfforaethau AB a gynhelir gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru ac, felly, nid oes unrhyw reswm ymarferol dros barhau â'r darpariaethau hyn.
54. Mae paragraff 4(5) yn cynnwys diwygiadau canlyniadol sy'n deillio o'r diddymiadau a wneir gan baragraff 4 (1) i (4).
55. Nid oes unrhyw sefydliadau AB a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru, ac nid oes unrhyw nod polisi ar hyn o bryd i gyflwyno corfforaethau AB a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru ychwaith. Felly, nid oes unrhyw reswm ymarferol dros gadw'r darpariaethau hyn i Gymru ac, felly, mae Llywodraeth Cymru yn fodlon y dylid eu diddymu.
56. Darpariaethau diddymu yw'r rhain ac, felly, nid ydynt yn cynnwys unrhyw bwerau newydd i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.

57. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud ag Addysg, hyfforddiant galwedigaethol, cymdeithasol a chorfforol a'r gwasanaeth gyrfaedd; a hyrwyddo datblygu a chymhwyso gwybodaeth, o dan baragraff 5 o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### **Cymal 57 - Diddymu dyletswyddau sy'n ymwneud ag ymgynghori neu gynnwys**

#### ***Atodlen 16, Rhan 2 – Mesurau sy'n effeithio ar Gymru a Lloegr***

58. Mae Cymal 57 yn cyflwyno Atodlen 16, sy'n ymwneud â dileu gofynion ymgynghori penodol mewn amrywiaeth o ddeddfwriaeth. Mae Rhan 2 yn darparu ar gyfer deddfwriaeth sy'n effeithio ar Gymru a Lloegr.
59. Ceisir caniatâd i ddileu Adran 53(7) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 sy'n ymwneud â threfniadau Ardal Gwella Busnes. Mae Adran 53(7) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru geisio barn awdurdodau bilio (cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) a thalwyr ardrethi ynglŷn â'r diwrnod y dylai trefniadau Ardal Gwella Busnes ddod i rym yn dilyn apêl yn erbyn fetto.
60. Mae trefniant Ardal Gwella Busnes yn bartneriaeth rhwng awdurdod bilio a'r gymuned fusnes leol i ddatblygu prosiectau a gwasanaethau er budd ardal benodol. Mae'r talwyr ardrethi annomestig yn yr ardal yn talu ardoll yn gyfnewid am y manteision a nodir yn nhrefniadau'r Ardal Gwella Busnes, er enghraifft, prosiectau i adfywio'r ardal neu wella diogelwch. Mae'r pwerau sy'n ymwneud â threfniadau Ardal Gwella Busnes i'w cael yn Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Rheoliadau Ardaloedd Gwella Busnes (Cymru) 2005.
61. Mae'n bosibl na ddaw trefniadau Ardal Gwella Busnes i rym nes i'r cynigion gael eu cymeradwyo drwy bleidlais gan y talwyr ardrethi annomestig sy'n agored i dalu'r ardoll.
62. Os bydd y bleidlais yn cymeradwyo'r cynigion, gall yr awdurdod bilio roi fetto ar y cynigion o dan amgylchiadau penodol. Mae adran 52 o Ddeddf 2003 yn caniatáu i unrhyw un sydd â hawl i bleidleisio apelio yn erbyn y fetto i Weinidogion Cymru. Os bydd apêl yn erbyn y fetto yn llwyddiannus, bydd Gweinidogion Cymru yn pennu'r diwrnod y daw trefniadau'r Ardal Gwella Busnes i rym (adran 53(5)).
63. Cyn gwneud y cyfryw benderfyniad mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdod bilio perthnasol a'r cyfryw bobl ag yr ymddengys eu bod yn cynrychioli'r talwyr ardrethi annomestig sy'n agored i dalu'r ardoll arfaethedig (adran 53(7)). Y gofyniad ymgynghori hwn sy'n cael ei ddiddymu.
64. Mae adran 53(7) yn nodi'r canlynol:

“(7) Before making a determination under subsection (5), the Secretary of State must consult—

(a) the billing authority concerned, and

(b) such persons as appear to him to be representative of the non-domestic ratepayers who are to be liable for the proposed BID levy.”

65. Mae'r diddymiad yn caniatáu i Weinidogion Cymru benderfynu pryd y daw trefniant Ardal Gwella Busnes i rym mewn ffordd fwy amserol ac effeithlon lle mae apêl yn erbyn feto wedi bod yn llwyddiannus. Mae'r gofynion presennol yn cynnwys cam mewn proses nad oes ei angen, pan ystyrir y broses honno yn ei chyfanrwydd.
66. Ar hyn o bryd, cyn penderfynu pryd y dylai trefniant Ardal Gwella Busnes ddod i rym yn dilyn apêl yn erbyn feto, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdod bilio ac unrhyw bobl eraill yr ymddengys eu bod yn cynrychioli talwyr ardrethi annomestig.
67. Bydd barn yr awdurdod bilio eisoes wedi'i nodi'n glir am mai'r awdurdod bilio a oedd yn gyfrifol am y feto. Bydd yr 'any other persons' y mae'r ddeddfwriaeth yn cyfeirio atynt eisoes wedi cael cyfle i fynegi eu barn ym mhleidlais wreiddiol y talwyr ardrethi annomestig.
68. Felly, bydd gan Weinidogion Cymru ddigon o wybodaeth er mwyn penderfynu pryd y daw trefniant Ardal Gwella Busnes i rym heb gynnal ymgynghoriad arall a fyddai'n cymryd llawer o amser.
69. Mae adran 53 o Ddeddf 2003 yn rhan o gyfraith Cymru a Lloegr. Bydd y diddymiad yn gymwys i drefniadau Ardal Gwella Busnes yng Nghymru a Lloegr a daw i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau gyda'r diwrnod y daw'r Bil yn Ddeddf.
70. Mae'r darpariaethau yn diddymu adran 53 (7) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 ac nid ydynt yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.
71. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud ag adfywio a datblygu'r economi o dan baragraff 4 o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyllid llywodraeth leol o dan baragraff 12 o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Cymal 60 - Deddfwriaeth nad yw o ddefnydd ymarferol mwyach**

***Atodlen 17, Rhan 5 – Yr Amgylchedd***

*Deddf Cemegion Ffermydd a Gerddi 1976 (cym. 5)*

72. Mae Cymal 60 o'r Bil Dadreoleiddio (sy'n dwyn y teitl "Legislation no longer of practical use") yn cyflwyno Atodlen 17 sy'n gwneud diwygiadau helaeth i'r gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth a nodwyd ac yn diddymu deddfwriaeth.
73. Mae paragraffau 17 a 18 (sy'n dwyn y teitl "Farm and Garden Chemicals Act 1967 (c.50)") yn Rhan 5 (yr Amgylchedd) o Atodlen 18 i'r Bil yn diddymu Deddf Cemegion Ffermydd a Gerddi 1967 sy'n ddiangen ac o ganlyniad i ddiddymu'r Ddeddf honno, mae'n gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (sy'n dileu paragraff 5 o Atodlen 3) a Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctiynau 2008 (sy'n dileu'r cofnod sy'n cyfeirio at Ddeddf Cemegion Ffermydd a Gerddi 1967 yn Atodlen 3 i Ddeddf 2008). Bydd y diddymiad hwnnw a'r diwygiadau hynny yn dod i rym mewn perthynas â Chymru, Lloegr a'r Alban.
74. Mae Deddf Cemegion Ffermydd a Gerddi 1967 yn galluogi'r "Ministers" fel y'u diffinnir gan adran 5 o Ddeddf 1967, i wneud rheoliadau ynghylch labelu a marchnata cynhyrchion sy'n cynnwys sylweddau penodol. Nid yw swyddogaethau o dan Ddeddf 1967 wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru. O dan y Ddeddf mae'n drosedd gwerthu, traddodi neu ddanfôn cynhyrchion sy'n cynnwys y sylweddau a nodwyd oni bai bod y cynhyrchion hynny wedi'u labelu a'u marcio yn unol â darpariaethau rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf. Mae'r Ddeddf hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch tystiolaeth sy'n ymwneud â dadansoddi cynhyrchion lle mae parti yn cael ei erlyn am drosedd o dan y Ddeddf honno.
75. Mae'r darpariaethau yn Deddf Cemegion Ffermydd a Gerddi 1967 sy'n ymwneud â labelu a marchnata plaladdwyr ffermydd a gerddi bellach yn ddiangen am eu bod wedi'u hatgynhyrchu gan ofynion cyfreithiol penodol a geir mewn deddfwriaeth arall a basiwyd gan y DU a'r UE megis Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion 2011 (O.S. 2011/2131) a Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Defnydd Cynaliadwy) 2012 (O.S. 2012/1657). Mae deddfwriaeth sy'n ymwneud â bioladdwyr a chynhyrchion cemegol hefyd wedi'i diweddarau gan Reoliadau Cynhyrchion Bioladdol a Chemegion (Penodi Awdurdodau a Gorfodi) 2013 (O.S. 2013/1506).
76. Nid yw'r darpariaethau sy'n diddymu Deddf Ffermydd a Gerddi 1967 ac yn gwneud y diwygiadau canlyniadol a ddisgrifiwyd uchod, ohonynt eu hunain, yn rhoi unrhyw bwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.
77. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â'r canlynol:

- Amaethyddiaeth, Garddwriaeth, Coedwigaeth, Iechyd Planhigion a Datblygu Gwledig o dan baragraff 1 o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;
- Adfywio a datblygu'r economi, gan gynnwys gwella'r amgylchedd heb gynnwys safonau, diogelwch ac atebolrwydd cynhyrchion, ac eithrio mewn perthynas â bwyd, cynhyrchion amaethyddol a garddwriaethol a phlaladdwyr (a phethau sy'n cael eu trin yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad fel plaladdwyr) o dan baragraff 4 o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;
- Diogelu'r amgylchedd, gan gynnwys llygredd, niwsans a sylweddau peryglus, Cadwraeth natur, bioamrywiaeth, mân-ddaliadau a rhandiroedd o dan baragraff 6 o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

*Deddf Cwmnïau Dŵr Statudol 1991 (cym.58)*

78. Mae paragraff 19 yn Rhan 5 o'r Atodlen hon yn diddymu Deddf Cwmnïau Dŵr Statudol 1991.
79. Mae paragraff 20 yn dileu cyfeiriadau at Ddeddf 1991 a'r term "statutory water company" o Ddeddfau eraill.
80. Roedd cwmnïau dŵr statudol yn fusnesau preifat â chyfalaf cyfranddaliadau a ymgorfforwyd o dan Ddeddfau Seneddol unigol. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn dyddio o ganol y 19eg Ganrif ac roeddent yn cynnwys, er enghraifft, York Waterworks a ddarparai wasanaethau cyflenwi dŵr i ddinas Caerefrog. Yn wahanol i'r awdurdodau dŵr a breifateiddiwyd yn 1989, ni fu cwmnïau dŵr statudol erioed yn y sector cyhoeddus ac nid oedd yn ofynnol iddynt gofrestru fel cwmnïau cyfyngedig o dan Ddeddf Cwmnïau 1985 am eu bod wedi'u hymgorffori o dan Ddeddfau lleol. Roedd y Ddeddf Cwmnïau Dŵr Statudol yn rheoleiddio sut y gallai'r cwmnïau dŵr statudol weithredu. Er enghraifft, roedd yn cyfyngu ar gyfradd y dididend a oedd yn daladwy i gyfranddalwyr a faint o arian y gallai'r cwmni ei fenthyca.
81. Erbyn hyn nid oes unrhyw gwmnïau dŵr statudol ar ôl oherwydd, ers iddynt gael eu preifateiddio, maent naill ai wedi uno â chwmnïau dŵr eraill neu wedi cael eu cymryd drosodd gan gwmnïau cyfyngedig eraill. Golyga hyn fod darpariaethau'r Ddeddf Cwmnïau Dŵr Statudol bellach yn ddiangen ac y gellir eu diddymu.
82. Nid yw'r darpariaethau hyn yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.
83. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â chyflenwi dŵr, rheoli adnoddau dŵr ac ansawdd

dŵr o dan baragraff 19 o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

*Deddf Pysgod y Môr (Cadwraeth) 1992 (cym.60)*

84. Bydd paragraff 21 (sy'n dwyn y teitl "Sea Fish (Conservation) Act 1992 (c. 60)") yn Rhan 5 (yr Amgylchedd) o Atodlen 17 i'r Bil yn diddymu adran 10 o Ddeddf Pysgod y Môr (Cadwraeth) 1992 (cym. 60). Ar hyn o bryd, mae adran 10 o Ddeddf 1992 yn rhan o gyfraith Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
85. Mae adran 10 o Ddeddf 1992 yn cynnwys gofyniad i'r Gweinidog gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn cynnwys adolygiad o'r Ddeddf, o fewn chwe mis i 1 Ionawr 1997, ar ôl ymgynghori â'r rhai sy'n cynrychioli buddiannau'r diwydiant pysgota. Ar 20 Mawrth 1997, atebodd yr Arglwydd Lucas gwestiwn seneddol er mwyn esbonio nad oedd unrhyw sylwedd i'r adroddiad. Esboniodd mai prif ddiben y Ddeddf oedd darparu ar gyfer cyflwyno cyfyngiadau ar yr amser a dreulir ar y môr ond cafodd y polisi ei atal oherwydd her gyfreithiol a phenderfynwyd wedyn beidio â mynd ymlaen ag ef.
86. Mae paragraff 21 o Atodlen 17 i'r Bil yn diddymu adran 10 o Ddeddf 1992 am fod y cyfnod a bennwyd ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd i gyflwyno adroddiad wedi dod i ben flynyddoedd yn ôl.
87. Dim ond diddymu adran 10 o Ddeddf Pysgod y Môr (Cadwraeth) 1912 a wna'r ddarpariaeth ac, felly, nid yw'n rhoi unrhyw bwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.
88. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â Physgodfeydd a Physgota o dan baragraff 1 o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

***Atodlen 17, Rhan 6 – Anifeiliaid a Bwyd***

*Deddfau Cynnyrch Amaethyddol (Graddio a Marcio) 1928 a 1931.*

89. Mae paragraffau 22 a 23 (sy'n dwyn y teitl "Agricultural Produce (Grading and Marking) Acts 1928 and 1931") yn Rhan 6 (Anifeiliaid a Bwyd) o Atodlen 17 i'r Bil yn diddymu Deddf Cynnyrch Amaethyddol (Graddio a Marcio) 1928 a Deddf Cynnyrch Amaethyddol (Graddio a Marcio) 1931.
90. Ar hyn o bryd, mae Deddf Cynnyrch Amaethyddol (Graddio a Marcio) 1928, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynnyrch Amaethyddol (Graddio a Marcio) 1931, yn ei gwneud yn bosibl i lunio rheoliadau sy'n rhagnodi dynodiadau gradd a marciau i nodi ansawdd cynnyrch amaethyddol a chynnyrch pysgodfeydd ac maent yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â storio a marcio wyau.

91. Prin fu'r defnydd o Ddeddfau 1928 a 1931 yn ystod y 70 mlynedd diwethaf. Maent wedi'u disodli gan ddeddfwriaeth ddomestig fwy diweddar yn ogystal â deddfwriaeth farchnata'r Undeb Ewropeaidd. Ystyrir bod y Deddfau yn ddiangen bellach ac nad ydynt yn ateb unrhyw ddiben defnyddiol ar yr adeg hon. O ganlyniad, mae paragraff 22 yn Rhan 6 o Atodlen 17 i'r Bil Dadreoleiddio yn diddymu Deddfau 1928 a 1931 ac mae paragraff 23 o'r Atodlen honno yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddfau o ganlyniad i ddiddymu Deddfau 1928 a 1931.
92. Mae Deddfau 1928 a 1931 yn rhan o gyfraith Cymru a Lloegr a'r Alban. Mae'r cynnig i ddiddymu Deddfau Cynnyrch Amaethyddol (Graddio a Marcio) 1928 a 1931, a nodir yn y Bil Dadreoleiddio, yn ymestyn i Loegr a, chyda chydsyniad y Cynulliad, Gymru.
93. Mae'r Bil ond yn darparu ar gyfer diddymu Deddf Cynnyrch Amaethyddol (Graddio a Marcio) 1928 a Deddf Ddiwygio Cynnyrch Amaethyddol (Graddio a Marcio) 1931 ac, felly, nid yw'n rhoi unrhyw bwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. Ar hyn o bryd, mae Deddf 1928 yn cynnwys pwerau i wneud offerynnau statudol sy'n destun gweithdrefn negyddol, yn unol ag adran 6 o Ddeddf 1928.
94. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â'r canlynol:
  - Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig o dan baragraff 1 o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:
  - Adfywio a Datblygu'r Economi a Hybu busnes a chystadleurwydd (nad yw'n cynnwys safonau cynnyrch... ac eithrio mewn perthynas â bwyd...cynhyrchion amaethyddol a garddwriaethol ac anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid o dan baragraff 4 o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;
  - Bwyd a chynhyrchion, Diogelwch bwyd a Diogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd o dan baragraff 8 o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

*Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (cym. 22)*

95. Mae paragraffau 24 a 25 (sy'n dwyn y teitl "Animal Health Act 1981 (c.22)") yn Rhan 6 (Anifeiliaid a Bwyd) o Atodlen 17 i'r Bil yn diddymu Rhan 2A (Adrannau 36A i 36M) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981. Mae Rhan 2A o Ddeddf 1981 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i nodi, drwy Orchymyn, genoteipiau defaid sy'n fwy tueddol o gael Clefyd y Crafu (ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol) ac yn rhoi pwerau, wedyn, i'r Ysgrifennydd Gwladol wahardd bridio o ddefaid sy'n perthyn i'r genoteip hwnnw.

96. Gosodwyd y pwerau hyn yn Neddf 1981 gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002 ac roeddent yn adlewyrchu pryderon (ar yr adeg honno) ynghylch y posibilrwydd y gallai BSE mewn defaid gael ei guddio gan glefyd y crafu. Ar yr adeg honno, nid oedd unrhyw brawf a allai wahaniaethu rhwng BSE a chlefyd y crafu. Ers hynny, mae'r UE wedi penderfynu peidio â chyflwyno rhaglenni bridio gorfodol ar gyfer ymwrthedd genetig i glefyd y crafu mewn defaid, sy'n golygu bod y pwerau hyn yn ddiangen. At hynny, mae profion bellach ar gael a all wahaniaethu rhwng BSE a chlefyd y crafu.
97. Dechreuodd rhaglen wirfoddol ym Mhrydain Fawr, sef Cynllun Cenedlaethol Clefyd y Crafu, yn 2001 a daeth i ben yn 2009 mewn ymateb i gyngor gwyddonol wedi'i ddiweddarau gan y Pwyllgor Cynghori ar Enseffalopathïau Sbyngffurf (SEAC), a ddatgelodd nad oes fawr ddim risg, os o gwbl, o BSE mewn defaid. Hyd yma, nid yw BSE wedi'i ganfod mewn defaid ym Mhrydain Fawr nac mewn unrhyw le arall yn y byd.
98. Nid yw'r pwerau yn Rhan 2A (Adrannau 36A-M) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 erioed wedi'u defnyddio ac, felly, ni fydd y cynnig i'w diddymu yn effeithio ar unrhyw un.
99. Nid yw'r darpariaethau diddymu hyn, ohonynt eu hunain, yn rhoi unrhyw bwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (sydd i'w diddymu) yn cynnwys pwerau penodol i wneud offerynnau statudol. Nid yw'r pwerau hyn erioed wedi'u defnyddio a chânt eu dileu gan y diddymiad arfaethedig.
100. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud ag Amaethyddiaeth ac Iechyd a Lles Anifeiliaid o dan baragraff 1 o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

*Deddf Llaeth (Rhoi'r Gorau i Gynhyrchu) 1985 (cym. 4)*

101. Bydd paragraff 26 (sy'n dwyn y teitl "Milk (Cessation of Production) Act 1985 (c.4)") yn Rhan 6 (Anifeiliaid a Bwyd) o Atodlen 17 i'r Bil yn diddymu Deddf Llaeth (Rhoi'r Gorau i Gynhyrchu) 1985. Ar hyn o bryd, mae Deddf 1985 yn rhan o gyfraith Cymru a Lloegr, yr Alban ac (at ddibenion penodol) Ogledd Iwerddon.
102. Sefydlodd Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 857/84, yn weithredol o 2 Ebrill 1984, system lle y dyrannwyd maint cyfeirio ("reference quantity") unigol i bob cynhyrchydd llaeth neu gynhyrchion llaeth. Pe bai cynhyrchiant cynhyrchydd yn fwy na'i faint cyfeirio, roedd gofyn iddo dalu ardoll. Cyfeirir at y maint cyfeirio fel arfer fel cwota llaeth ("milk quota").
103. Roedd Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 857/84 hefyd yn caniatáu i Aelod-wladwriaethau roi iawndal i gynhyrchwyr a ymrwymodd i roi'r gorau i gynhyrchu llaeth. Byddai'r fath ymrwymiad i roi'r gorau i gynhyrchu llaeth yn cynnwys ildio cwota llaeth y cynhyrchydd. Mae Deddf 1985 yn ei



gwneud yn bosibl i sefydlu cynlluniau sy'n darparu ar gyfer talu iawndal pan fydd cynhyrchwyr yn rhoi'r gorau i gynhyrchu llaeth ac yn ildio eu cwota llaeth.

104. Sefydlwyd y cyfryw gynlluniau o dan y Ddeddf honno mewn perthynas â Chymru, Lloegr a'r Alban. Dirymwyd y cynlluniau hyn yn weithredol o 6 Ebrill 2007 ac ni roddwyd unrhyw gynlluniau eraill yn eu lle (ni fwriedir gwneud hynny). Bwriedir i'r system cwota llaeth sylfaenol ei hun (y mae ei darpariaethau bellach wedi'u cynnwys yn Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 ddod i ben yn weithredol o 31 Mawrth 2015.
105. Felly, mae Deddf 1985 bellach yn ddiangen a bydd paragraff 26 yn Rhan 6 o Atodlen 17 i'r Bil yn diddymu'r Ddeddf honno mewn perthynas â Lloegr, Gogledd Iwerddon a, chyda chydsyniad y Cynulliad, Gymru. Er gwybodaeth, mae Llywodraeth yr Alban wedi cadarnhau ei bod yn bwriadu pasio deddfwriaeth i ddiddymu Deddf 1985 mewn perthynas â'r Alban, yn ddiweddarach.
106. Mae'r Bil ond yn darparu ar gyfer diddymu Deddf Llaeth (Rhoi'r Gorau i Gynhyrchu) 1985. Felly, nid yw'r Bil hwn yn darparu ar gyfer rhoi unrhyw bwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.
107. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â'r canlynol:
  - Amaethyddiaeth a datblygu gwledig o dan baragraff 1 o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;
  - Adfywio a Datblygu'r Economi o dan baragraff 4 o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;
  - Bwyd a chynhyrchion bwyd o dan baragraff 8 o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

*Gorchymyn Pyllau Glo a Mwyngloddiau Eraill (Ceffylau) 1956 (O.S. 1956/1777)*

108. Bydd paragraff 27 (sy'n dwyn y teitl "Coal and Other Mines (Horses) Order 1956 (S.I. 1956/1777)") yn Rhan 6 (Anifeiliaid a Bwyd) o Atodlen 17 i'r Bil yn diddymu Gorchymyn Pyllau Glo a Mwyngloddiau Eraill (Ceffylau) 1956 (O.S. 1956/1777). Mae Gorchymyn 1956 yn nodi rheolau iechyd a lles ar gyfer ceffylau a ddefnyddir mewn mwyngloddiau ac mae'n rhan o gyfraith Cymru a Lloegr a'r Alban.
109. Gwnaed Gorchymyn 1956 yn wreiddiol o dan adran 190 o Ddeddf Mwynfeydd a Chwareli 1954 (Deddf 1954). Ers hynny mae'r pŵer galluogi hwnnw wedi'i ddiddymu ac mae Gorchymyn 1956 bellach yn effeithiol yn rhinwedd Rheoliadau Deddfau Mwynfeydd a Chwareli 1954 i 1971 (Diddymiadau ac Addasiadau) 1974 (O.S. 1974/2013) (Rheoliadau

1974) a wnaed o dan adran 15 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974.

110. Mae Gorchymyn 1956 yn cynnwys darpariaethau manwl ynghylch trin ceffylau sy'n gweithio dan ddaear mewn mwynfeydd, megis yr oedran pan ellir mynd â cheffyl dan ddaear, oriau gwaith, archwiliadau milfeddygol, gofynion stablu ac ati.
111. Erbyn hyn nid ystyrir bod Gorchymyn 1956 o ddefnydd ymarferol, am nad yw ceffylau wedi'u defnyddio mewn mwynfeydd yng Nghymru a Lloegr ers amser maith.
112. Byddai diddymu Gorchymyn 1956 yn diddymu gwaharddiad penodol ar fynd â cheffyl dan ddaear os yw dan bedair oed, yn ddall neu os nad ardystiwyd yn ddiweddar ei fod yn rhydd o'r clefyd llymeirch. Fodd bynnag, byddai unrhyw geffylau sy'n cael eu defnyddio mewn mwynfeydd yn cael eu diogelu'n briodol sut bynnag o dan ddeddfwriaeth lles anifeiliaid fodern a gymhwysir yn gyffredinol, sef Deddf Lles Anifeiliaid 2006.
113. Dim ond diddymu Gorchymyn Pyllau Glo a Mwynfeydd Eraill (Ceffylau) 1956 a wna darpariaeth y Bil a ddisgrifiwyd uchod ac, felly, nid yw'r Bil hwn yn darparu ar gyfer rhoi unrhyw bwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.
114. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud ag Iechyd a Lles Anifeiliaid o dan baragraff 1 o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### ***Atodlen 17, Rhan 8 – Cyfraith Droseddol***

#### *Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 (10 ac 11 Vict (cym.89))*

115. Bydd y Rhan hon yn diddymu nifer o ddarpariaethau yn Neddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847, nad ystyrir eu bod o ddefnydd ymarferol mwyach.
116. Mae adran 28 o Ddeddf 1947 yn darparu ar gyfer nifer o droseddau, mewn perthynas â gweithgareddau penodol a gyflawnir ar y stryd. Gellir disgrifio a grwpio'r troseddau hyn yn fras fel a ganlyn:

#### *Materion sy'n ymwneud ag anifeiliaid*

- Gwerthu anifeiliaid
- Cŵn Peryglus
- Lladd gwartheg
- Cadw cwt mochyn

#### *Materion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth*

- Peidio â gyrru ar y chwith

- Gyrru ceffyl a chert neu gerbyd neu wartheg yn wyllt
- Cerbyd neu gert yn cau priffordd
- Clymu llwythi yn ddiogel ar gert neu gerbyd
- Ceffyl, cert neu gerbyd yn blocio llwybrau troed

#### *Materion sy'n ymwneud â manwerthu*

- Siopau sy'n arddangos eu nwyddau ar y llwybr troed
- Rhoi leiniau neu gordiau ar draws y stryd

#### *Cyffredinol*

- Darparu neu werthu llenyddiaeth neu bapurau anweddus neu ganu caneuon anweddus
- Tanio drylliau, taflu cerrig, teflynnau neu dân gwyllt neu wneud coelcerth
- Aflonyddu ar breswylwyr drwy ganu cloch y drws neu daro neu ddiffodd goleuadau stryd yn 'ddireswm'.
- Hedfan barcud neu wneud sleidiau eira neu iâ
- Gwneud neu atgyweirio casgenni
- Gosod deunyddiau adeiladu i lawr oni bai eu bod wedi'u hamgáu'n ddiogel
- Curo carpedi neu rygiau (ac eithrio matiau drysau a gaiff eu curo cyn 8 am)
- Gosod potiau neu flychau blodau mewn ffenestri ar y llawr uchaf heb sicrhau eu bod wedi'u clymu'n gywir
- Taflu eitemau o do tŷ
- Caniatáu i bobl sefyll ar siliau ffenestri er mwyn cynnal a chadw'r eiddo
- Gadael drysau selerau ar agor heb y canllawiau neu'r ffensys priodol

#### *Amgylcheddol*

- Taflu ysbwriel

Byddai'r diddymiadau arfaethedig yn dileu pob un o'r troseddau o'r llyfr statud ar wahân i'r rhai canlynol:

- Pob person sy'n caniatáu i gi ffyrnig heb fwsel grwydro'n rhydd neu sy'n gyrru neu'n annog unrhyw gi neu anifail arall i ymosod ar unrhyw berson neu anifail, ei boeni neu godi ofn arno.
- Pob person sy'n marchogaeth neu'n gyrru unrhyw geffyl neu gerbyd yn wyllt, neu sy'n gyrru unrhyw wartheg yn wyllt.
- Pob person sy'n tanio unrhyw ddrylliau, neu'n taflu neu'n tanio unrhyw garreg neu deflyn arall neu'n gwneud unrhyw goelcerth neu'n taflu neu'n cynnau unrhyw dân gwyllt, a hynny'n ddireswm.

117. Ar hyn o bryd, mae'r troseddau hyn yr un mor gymwys i Gymru a Lloegr. Mae natur gydgyssylltiedig systemau gweinyddol perthnasol Cymru a Lloegr yn golygu ei bod yn fwyaf effeithiol a phriodol i ddarpariaeth i

ddileu'r troseddau gael ei datblygu ar yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol. Nid yw llawer o'r troseddau hyn yn berthnasol mwyach heddiw ac mae eraill wedi'u disodli gan ddeddfwriaeth fwy diweddar ac, felly, nid yw'r penderfyniad i'w dileu o'r llyfr statud yn un cynhennus.

118. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae nifer o'r troseddau y cyfeiriwyd atynt uchod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid o dan baragraff 1 o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; priffyrdd a chyfleusterau a gwasanaethau trafnidiaeth o dan baragraff 10 o Ran 1, Atodlen 7; a diogelu'r amgylchedd o dan baragraff 6 o Ran 2, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

119. Mae pob un o'r darpariaethau yn y Memorandwm hwn yn ymestyn i Gymru ac maent yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

### **Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad**

120. Ym marn Llywodraeth Cymru mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn i'r DU gan mai hwn yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur er mwyn galluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru am fod y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil, sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cymru, yn rhai technegol ac anghynnenus. At hynny, mae natur gydgysylltiedig systemau gweinyddol perthnasol Cymru a Lloegr yn golygu ei bod yn fwyaf effeithiol a phriodol i ddarpariaethau'r Bil ar gyfer y ddwy wlad gael eu datblygu ar yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol.

### **Goblygiadau ariannol**

121. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru.

**Alun Davies, AC**  
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**  
**Chwefror 2014**